**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 12 Chwefror 2018 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L James | M H Jones |
| J W Jones | | |

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Phillip John | Rheolwr y Prosiect |
| Stuart Davies | Pennaeth Gwasanaeth, Priffyrdd a Chludiant |
| Mark Thomas | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P Downing, P K Jones, I E Mann, B J Rowlands a/ac D W W Thomas
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

3 **Adolygiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant**

Canslwyd y cyfarfod oherwydd problemau gyda phapurau'r Cabinet.
Trefnir cyfarfod arall.

Cynhaliwyd cyfarfod ar 14 Chwefror i gynnwys adroddiad ychwanegol na chafodd ei gynnwys yn y gwaith papur gwreiddiol.
Nodiadau fel a ganlyn:

(Sylwer: Gohiriwyd y cyfarfod hwn tan 14 Chwefror)

- Mae'r adroddiad hwn wedi bod yn yr arfaeth am gryn dipyn o amser ond oherwydd adolygiadau a newidiadau sy'n gorgyffwrdd, bu'n rhaid ei ohirio.
- Y bwriad oedd dadansoddi'r holl wasanaeth yn drylwyr, gan ystyried y sefyllfa bresennol a meincnodi lle bo'n briodol.
- Mae ymgais i symleiddio'r holl wasanaethau.
- Ystyriwyd cynigion anffafriol am gyllid, gan wrthod y rheiny nad oeddent yn briodol.
- Ceisio cael staff i weithio ar sawl tasg cymaint â phosib lle bo hynny'n briodol.
- Mae cyfyngiad i'r toriadau y gellir eu gwneud cyn niweidio gwasanaeth.
- Mae ffyrdd yn dioddef o ddiffyg cyllido mawr ond mae'r adran yn ceisio bod yn flaengar.
- Cwblhau archwiliadau diogelwch ffyrdd i awdurdodau lleol eraill er mwyn mwyafu incwm
- Bodlonrwydd mawr bod rheolaeth yr orsaf fysus yn effeithlon ac yn gost-effeithiol
- Cydnabuwyd llwyddiant y Marina
- Cydnabuwyd bod ffurfio Uned Gludiant Integredig yn rhywbeth cadarnhaol
- Trafodwyd materion gorfodi parcio ar y stryd ac anawsterau wrth roi cynlluniau parcio i breswylwyr ar waith
- Archwiliwyd a oes uchafswm o arian y gellir ei wario yn mhob ward etholiadol y flwyddyn ar waith atgyweirio tîm PATCH
- Caiff rhai ffyrdd eu harchwilio'n fisol a rhai'n flynyddol. Ceir amserlenni atgyweirio gyda phroblemau ffyrdd difrifol. Rydym mewn sefyllfa well na llawer o awdurdodau lleol eraill ond nid yw trwsio tyllau yn y ffyrdd yn gwella rhwydwaith y ffyrdd.
- Nid oes digon o arian yn cael ei wario ar gynnal a chadw ffyrdd a chynnal a chadw ardaloedd ger y ffyrdd.
- Ystyriwyd a oes terfyn arian o ran yr hyn y gellir ei wario ym mhob ward etholiadol bob blwyddyn.
- Mae goleuadau LED wedi bod yn llwyddiannus; nid yn unig y mae wedi arbed arian ond mae wedi arwain at leihau defnydd ynni a lleihau allyriadau carbon. Ystyriwyd pa ardaloedd yn Abertawe sy'n aros am oleuadau LED i gael eu gosod o hyd.
- Mae'r adolygiad yn gynhwysfawr ac yn fanwl iawn.
- Canmoliaeth i'r tîm am ei lunio

4 **Gwahardd y Cyhoedd.**

Dim

5 **Adolygiad Comisiynu Priffyrdd a Chludiant**

Trafodwyd yr eitemau eithriedig

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 am

**Cadeirydd**